

NOSC 2026 Rhif 134

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2026

Gwnaed 16 Gorffennaf 2026
Yn dod i rym 27 Gorffennaf 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd, neu o ddifrod difrifol i'r ffordd, na ellir ei briodoli i'r gwaith a/neu er mwyn gwneud gwaith ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1) a (4) a 124(3)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Gorffennaf 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru. Mewnosodwyd adran 124(3)(b) gan adran 2(2) o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiaidau) (Cymru) 2025.

NWSI 2026 No. 134

ROAD TRAFFIC

The A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Traffic) Order 2026

Made 16 July 2026
Coming into force 27 July 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of the likelihood of danger to the public, or of serious damage to the road, which is not attributable to works and for works to be undertaken on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) and 124(3)(b) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Traffic) Order 2026 and this Order comes into force on 27 July 2026.

Interpretation

2. In this Order—

- (1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales. Section 124(3) was inserted by the Legislation (Procedure, Publication and Repeals) (Wales) Act 2025, section 2(2).

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â gwaith neu arolygiadau sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod arolygu” (“*inspection period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau ar 27 Gorffennaf 2026 pan fydd y cyfyngiadau uchder a phwysau wedi eu torri a bod angen arolygu strwythur y bont i sicrhau ei diogelwch;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau ar 27 Gorffennaf 2026 pan fo gwaith yn ofynnol ar ôl arolygu strwythur y bont, ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o’r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi o’r enw Pont Menai rhwng Ynys Môn a Gwynedd.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd sy’n pwyso 7.5 tonnau neu fwy ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd sy’n 3 metr o uchder neu fwy, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith neu arolygu, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith neu arolygu, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod y gwaith neu arolygu, gerdded ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

8. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with works or inspections giving rise to this Order;

“inspection period” (“*cyfnod arolygu*”) means intermittent periods commencing from 27 July 2026 when breaches of the height and weight restrictions have occurred and the bridge structure needs to be inspected to ensure its safety;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A5 London to Holyhead trunk road known as the Menai Suspension Bridge between Anglesey and Gwynedd;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing from 27 July 2026 where works are required following an inspection of the bridge structure and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions

3. No person may drive any vehicle with a weight of or exceeding 7.5 tonnes on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

4. No person may drive any vehicle with a height of or exceeding 3 metres, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

5. No person may, during the works or inspection period, drive any vehicle on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

6. No person may, during the works or inspection period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in the article 2 of this Order.

7. No pedestrian may, during the works or inspection period, proceed on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

Application

8. The prohibitions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Dirymu

9. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2025(1) a Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2026(2) wedi eu dirymu.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

16 Gorffennaf 2026

Nicci Hunter

Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

Revocation

9. The A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2025(1) and The A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2026(2) are revoked.

Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated

16 July 2026

Nicci Hunter

Head of Governance and Assurance
Welsh Government

(1) O.S. 2025/768 (Cy. 137).
(2) NOSC 2026 Rhif 65.

(1) S.I. 2025/768 (W. 137).
(2) NWSI 2026 No. 65.